# ADRODDIADAU ARHOLWYR

## LEFEL 3 TYSTYSGRIF/DIPLOMA MEWN GWYDDOR FEDDYGOL

## HAF 2022

© WJEC CBAC Cyf

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:
https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=cy

**Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

**Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

**Uned Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| Uned 1: | IECHYD A CHLEFYDAU DYNOL | **1** |
| Uned 2: | TECHNEGAU MESUR FFISIOLEGOL | **8** |
| Uned 3: | DULLIAU YMCHWIL GWYDDOR FEDDYGOL | **11** |
| Uned 4: | MEDDYGINIAETHAU A THRIN CLEFYDAU | **14** |
| Uned 5: | TECHNEGAU LABORDY CLINIGOL | **18** |
| Uned 6: | ASTUDIAETH ACHOS FEDDYGOL | **21** |


© WJEC CBAC Cyf

## GWYDDOR FEDDYGOL

**Lefel 3 Tystysgrif**

**Haf 2022**

## UNED 1: IECHYD A CHLEFYDAU DYNOL

### Sylwadau Cyffredinol

Uned 1 yw'r uned arholiad a asesir yn allanol ar gyfer y Dystysgrif Gwyddor Feddygol. Mae'n werth 50% o gyfanswm marciau'r cymhwyster. Darperir erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i ymgeiswyr bedair wythnos cyn yr arholiad (eleni cafodd hyn ei ymestyn i chwe wythnos oherwydd dyddiad gwyliau'r Pasg) ac maent yn cael cyfle i weithio drwy'r erthygl hon yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r cwestiynau yn Adran A y papur arholiad yn seiliedig ar yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Gallai'r cwestiynau hyn ofyn am gynnwys sydd i'w gael yn uniongyrchol yn yr erthygl, gallent ofyn i ymgeiswyr gymhwyso eu gwybodaeth, neu gallent gyflwyno uned arall o waith sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd yn yr erthygl sydd wedi'i rhyddhau ymlaen llaw gan gynnwys cynnwys synoptig o unedau 2 a 3. Mae hyd at 25 marc ar gyfer yr adran hon.

Mae Adran B yn werth hyd at 65 marc o gwestiynau seiliedig ar fanyleb uned 1 yn ogystal ag 8-10 marc yn seiliedig ar Uned 2 ac Uned 3. Bydd y cwestiynau'n profi amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys galw i gof uniongyrchol, dadansoddi, gwerthuso a sgiliau mathemategol eraill.

Dim ond nifer bach o'r ymgeiswyr na wnaethant roi cynnig ar bob cwestiwn ac roedd yn amlwg bod yr holl ymgeiswyr wedi cael digon o amser i gwblhau'r papur. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi methu mynegi eu hunain yn glir ac roedd diffyg terminoleg neu benodolrwydd priodol yn yr atebion; roedd hyn yn broblem mewn sgriptiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg eto eleni.

Roedd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig eto'n broblem i rai ymgeiswyr. Mae blaen y papur arholiad yn eu hatgoffa bod angen Cymraeg/Saesneg da. Roedd yn amlwg hefyd bod llawer o'r ymgeiswyr yn cael anhawster â phroblemau mathemategol syml unwaith eto. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr offer priodol h.y. pensil a phren mesur i'w defnyddio i luniadu'r graff, er bod yr ymgeiswyr yn aml wedi dewis y math anghywir o graff.

© WJEC CBAC Cyf

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Adran A**

Deunydd i'w ryddhau ymlaen llaw

Cymedr: 10.8/22; FfH: 49.0; Cyfradd ymgeisio: 100%.

Roedd yn amlwg bod y rhan fwyaf o ganolfannau wedi treulio rhywfaint o amser yn paratoi ymgeiswyr ar gyfer adran yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw. Enillodd yr ymgeiswyr hyn rywfaint o farciau uchel yn Adran A. Roedd nifer bach o ymgeiswyr, fodd bynnag, heb astudio'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw yn drwyadl ac yn methu ehangu y tu hwnt i gynnwys yr erthygl. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ar gael am chwe wythnos cyn yr arholiad i ganiatáu gwaith paratoi. Roedd cwestiynau'n seiliedig yn uniongyrchol ar gynnwys yr erthygl ac ar wybodaeth ehangach o'r fanyleb.

**Cw.1** Ni chafodd yr ymgeiswyr unrhyw broblem i nodi tri o symptomau TB a oedd wedi'u rhestru drwy'r erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i gyd.

**Cw.2** Ni chafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr unrhyw broblem i ddisgrifio'r dull o drosglwyddo TB.

**Cw.3** Roedd yr ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd disgrifio'n gywir sut mae'r ymateb imiwn hylifol yn ymateb i antigen estron. Gofynnwyd y cwestiwn hwn yng nghyd-destun brechlyn ac er nad oedd angen i'r ymgeiswyr wybod unrhyw beth am frechlynnau mewn gwirionedd, roedd llawer yn ei chael hi'n anodd nodi cynnwys syml o'r fanyleb am yr ymateb imiwn hwn.

Cafodd y rhai a enillodd farciau, farciau am enwi celloedd penodol e.e. lymffocytau B, plasma a chelloedd cof. Gofynnodd y cwestiwn hwn i'r ymgeiswyr alw cynnwys i gof o'r fanyleb ac am fod y system imiwnedd wedi'i henwi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw, roedd disgwyl iddo fod yn gwestiwn hawdd iawn i'w ateb.

**Cw.4** Roedd y cwestiwn hwn yn gysylltiedig ag uned 2. Nodwyd endoscopi yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw, ond ni sylwodd llawer o ganolfannau ac ymgeiswyr ar hyn wrth baratoi. Dim ond ychydig iawn o ymgeiswyr a lwyddodd i ddisgrifio'n gywir sut mae endoscopi yn cael ei ddefnyddio i ganfod TB. Nid oedd yr atebion yn ddigon manwl e.e., nid oedd unrhyw sôn am y golau ar y camera nac ychwaith sut/ble mae'r camera yn mynd i mewn i'r corff.

**Cw.5** **(a)** Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi llwyddo i ennill un marc am y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, ni wnaethant ennill yr ail farc lle roedd disgwyl iddynt ymhelaethu ar eu hateb drwy nodi y gallai TB cudd ddod yn weithredol yn ddiweddarach.

**(b)** Unwaith eto, nid achosodd y cwestiwn hwn unrhyw broblem i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr a lwyddodd i ddod o hyd i'r wybodaeth yn yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw.

**Cw.6** **(a)** Mae rhai ymgeiswyr bob amser wedi'i chael hi'n anodd disgrifio tueddiadau ac nid oedd y flwyddyn hon yn wahanol. Collodd ymgeiswyr farciau yma am nad oedd eu hatebion yn cynnwys geiriau allweddol e.e. 'uwch' a arweiniodd at beidio ag ennill unrhyw farciau.

© WJEC CBAC Cyf

**(b)** Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud yn dda wrth awgrymu rhesymau dros y duedd, a oedd yn galonogol.

**Cw.7** Roedd llawer o ymgeiswyr wedi'i chael hi'n anodd awgrymu'r rhesymau dros y cynnydd yn nifer yr achosion fesul 100 000 o'r boblogaeth yng Nghymru yn 2009. Gan fod hwn yn anghysondeb amlwg yn nhuedd y graff, roedd disgwyl iddo gael ei drafod gan yr ymgeiswyr yn y dosbarth wrth baratoi. Nid oedd yr atebion yn ddigon eglur na manwl ac roedd y diffyg eglurder hwn yn golygu bod llawer wedi methu ag ennill marciau. Y cyfan a wnaeth rhai ymgeiswyr oedd ailadrodd eu hatebion o'r cwestiwn blaenorol, nad oedd yn briodol. Dylai canolfannau dreulio amser yn paratoi ymgeiswyr i ddadansoddi data yn ystod y pedair wythnos cyn yr arholiad.

**Cw.8** **(a)** Roedd y cwestiwn am y graff, fel bob amser, yn un anodd i lawer o ymgeiswyr. Mae'n werth edrych ar faint y grid cyn dewis graddfa addas. Yn yr achos hwn, roedd papur y graff o faint perffaith fel y byddai'r raddfa a ddewisi yn llenwi'r dudalen gyfan. Roedd hyn yn golygu y byddai unrhyw raddfa arall yn colli marciau ar unwaith gan nad oedd yr ymgeiswyr wedi dewis y maint mwyaf addas ar gyfer y graff. Hefyd, ni roddodd ymgeiswyr werthoedd yn y tarddiad, nid oes angen i'r rhain gyfateb i (0,0) ar yr amod bod gwerth addas ac yna raddfa linol. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi nodi teitlau ac unedau ar echelinau ac roedd llawer wedi dewis y math anghywir o graff. Caniatawyd dau wall plotio eleni am fod llawer o ddata i'w plotio a rhoddwyd marciau am linellau a oedd wedi'u labelu'n glir.

Defnyddiodd rhai ymgeiswyr groesau neu ddotiau trwchus a oedd yn llenwi mwy na hanner sgwâr fach a oedd yn golygu eu bod wedi colli'r marc am blotio am ei fod yn fwy na'r gwerth goddefiant. At ei gilydd, roedd y graffiau yn siomedig unwaith eto eleni. Dylai sgiliau mathemategol sylfaenol wedi galluogi'r ymgeiswyr i ddelio â'r data a ddarparwyd heb unrhyw broblem o gwbl. Roedd y canolfannau wedi cael y data hyn ymlaen llaw hefyd er mwyn iddynt allu ymarfer lluniadu graffiau ac ati yn y dosbarth. Roedd hyn yn rhan o'r elfen fathemategol sy'n gysylltiedig ag uned 3 ar gyfer yr arholiad hwn.

**(b)** Unwaith eto, roedd disgrifio tueddiadau yn fwy anodd na'r disgwyl. Llwyddodd y rhan fwyaf i nodi'n glir fod gan Isoniazid lefel uwch o ymwrthedd i TB ond yna ni wnaethant gydnabod fod gan Rifampicin lefel gyson is o ymwrthedd o'i gymharu ag Isoniazid.

**(c)** Pan ofynnwyd iddynt awgrymu ffordd y gallai awdurdodau iechyd helpu i leihau nifer yr achosion o ymwrthedd i wrthfiotigau ar gyfer trin TB, rhoddodd llawer o'r ymgeiswyr atebion rhesymol da. Collwyd marciau pan fethodd ymgeiswyr â mynegi eu hunain yn glir.

© WJEC CBAC Cyf

**Adran B**

**Cw.9** Cymedr: 4.7/10; FfH: 47.3; Cyfradd ymgeisio: 99.9%.

**(a)** **(i)** Llwydodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr i enwi'r mesurydd anterth llif. Roedd hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith uned 2.

**(ii)** Llwyddodd yr ymgeiswyr i ddisgrifio sut mae'r mesurydd anterth llif yn cael ei ddefnyddio, a oedd yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ddyfais.

**(iii)** Ni chafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi edrych dros eu gwaith ar gyfer uned 2 unrhyw anhawster o gwbl i nodi gwerth terfynol anterth llif o'r data a ddarparwyd. Fodd bynnag, cyfrifodd llawer o ymgeiswyr gymedr y gwerthoedd, sy'n anghywir.

**(iv)** Pan ofynnwyd iddynt nodi oedrannau Pete ac Eurig, ni chafodd yr ymgeiswyr unrhyw anhawster i ddarllen y tabl. Cafodd y rhai a oedd wedi cyfrifo'r gwerth yn anghywir ar gyfer rhan (iii) 'gwall a gariwyd ymlaen' ar gyfer yr adran hon. Collwyd marciau gan rai ymgeiswyr a fethodd â rhoi ffigur penodol ac a benderfynodd ddyfalu gwerth rhwng grwpiau data yn y tabl.

**(b)** Yn anffodus, ni chwblhawyd sbirometreg yn dda gan yr ymgeiswyr. Dim ond un neu ddau farc a enillwyd gan y mwyafrif am y cwestiwn hwn. Nid oedd yr ymgeiswyr yn gwybod hanfodion y dechneg a oedd, unwaith eto, yn gwestiwn sy'n gysylltiedig ag uned 2. Atgoffir canolfannau y daw rhwng 8 a 10 marc o gynnwys uned 2 ac, felly, ei bod yn hanfodol bod canolfannau yn treulio amser yn adolygu gwaith a wnaed yn flaenorol.

**Cw.10** Cymedr: 4.6/14; FfH: 33.1; Cyfradd ymgeisio: 99.7%.

**(a)** Dim ond nifer bach iawn o ymgeiswyr a nododd yn gywir fod inswlin yn brotein.

**(b)** Llwyddodd llawer i nodi'r math cywir o gelloedd a'u lleoliad yn y pancreas.

**(c)** Ni chafodd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi dysgu eu gwaith ar reoli lefelau glwcos unrhyw anhawster i roi disgrifiad manwl o effaith inswlin a glucagon. Mae'n werth cofio yma fod yn rhaid i'r geiriau 'glwcos', 'glycogen' a 'glwcagon' fod wedi'u sillafu'n gywir yn y cwestiwn hwn. Felly, methodd ymgeiswyr ag ennill marciau pan nad oedd y geiriau allweddol hyn wedi'u sillafu'n gywir.

**(ch)** **(i)** Mae cwestiynau sy'n cynnwys cyfrifo bob amser yn achosi problemau. Fodd bynnag, eleni, enillodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr o leiaf un marc wrth gyfrifo canran cyfanswm yr egni y mae John yn ei gael o frasterau dirlawn. Roedd hyn yn welliant o gymharu â chyfresi blaenorol.

**(ii)** Mae DD3 yn gofyn i ymgeiswyr astudio dewisiadau mewn bywyd a gwelliannau i ffordd o fyw. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i nodi newid addas ond yna ni allent ymhelaethu ar eu hatebion er mwyn esbonio sut y byddai'r newid hwnnw yn lleihau'r risg o ddatblygu cyflyrau iechyd.

© WJEC CBAC Cyf

**Cw.11** Cymedr: 6.6/14; FFH; Cyfradd ymgeisio: 99.7%.

**(a)** Ni achosodd y cwestiwn hwn unrhyw broblem i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr ac enillodd llawer farciau uchel am enwi'r moleciwlau biolegol gwahanol. Roedd yn amlwg bod ymgeiswyr wedi dysgu'r gwaith hwn.

**(b)** Cwblhawyd yr ymarfer llenwi bylchau yn dda hefyd gyda bron pob ymgeisydd yn ennill marciau yma. Lle cafodd gwallau eu gwneud, cymysgodd ymgeiswyr y bondiau glycosidaidd â'r bondiau peptid ac ni wnaethant enwi deupeptid fel y moleciwl a ffurfir pan fydd dau asid amino yn uno.

**(d)** Daw disgrifio'r gwahaniaeth rhwng adeiledd asid brasterog dirlawn ac adeiledd asid brasterog annirlawn yn uniongyrchol o'r fanyleb. Enillodd rhai ymgeiswyr farciau da yma. Fodd bynnag, methodd llawer ohonynt ag ennill marciau am nad oedd eu hatebion yn ddigon manwl. Rhaid i ymgeiswyr gyfeirio at y bondiau dwbl/sengl rhwng carbonau er mwyn iddynt ennill marciau am gwestiwn fel hwn.

**Cw.12** Cymedr: 4.1/11; FfH: 37.5; Cyfradd ymgeisio: 99.5%.

**(a)** Wrth astudio uned 1, disgwylir i ymgeiswyr ddysgu am wahanol glefydau a chyflyrau. Enwir angina yn y fanyleb ac, felly, gellir ei ddefnyddio wrth arholi. Ni chafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr unrhyw anhawster i nodi un o symptomau angina.

**(b)** Roedd cyfrifo cost trin angina yn fwy o broblem i lawer o ymgeiswyr. Roedd y ffigurau mawr wedi drysu llawer ac, felly, gallai hwn fod yn faes i ganolfannau weithio arno wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer arholiadau yn y dyfodol. Cafodd ymgeiswyr drafferth i ysgrifennu £669 miliwn mewn ffigurau, a arweiniodd at lawer o wallau yn eu cyfrifiadau. Mae llawer o enghreifftiau o gyfresi blaenorol o arholiadau y gellir eu defnyddio wrth baratoi ymgeiswyr.

**(c)** Ni chafodd ymgeisgwyr unrhyw anhawster i awgrymu rheswm pam mae achosion o angina yn fwy cyffredin ymhlith dynion o gymharu â menywod.

**(ch)** Dyma gwestiwn arall sy'n gysylltiedig ag uned 2 a atebwyd yn dda. Rhestrodd llawer o ymgeiswyr brofion pwysedd gwaed a sgan uwchsain fel dulliau o ddiagnosio angina Enillodd y rhai a enwodd ECG un marc ond yna ni wnaethant nodi beth y byddai'r prawf yn ei ddangos.

**(d)** Ni chafodd yr ymarfer disgrifio ac esbonio sut y gall newidiadau yn y rhydweli achosi trawiad ar y galon ei wneud yn dda gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr. Roedd terminoleg allweddol ar goll sy'n golygu nad oedd ymgeiswyr wedi ennill unrhyw farciau. Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio iaith wyddonol yn eu hymatebion wrth ateb y mathau hyn o gwestiynau. Dylid cyfeirio at gyhyr y galon wrth ddisgrifio pam nad yw gwaed/ocsigen yn cyrraedd y galon. Mae angen i ymgeiswyr nodi mai plac yw enw'r dyddodyn. Gofynnwyd cwestiwn tebyg i hwn yn y gorffennol ac roedd yn amlwg nad oedd hyn wedi cael ei ddwyn i sylw'r mwyafrif o ymgeiswyr wrth baratoi.

**Cw. 13** Cymedr: 2.5/5; FfH: 50.4; Cyfradd ymgeisio: 99.7%.

**(a)** Ni chafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr unrhyw anhawster i esbonio pam mai clefydau cyffwrdd-ymledol oedd prif achosion marwolaeth mewn gwledydd incwm isel.

© WJEC CBAC Cyf

Fodd bynnag, gwnaethant golli'r ail bwynt marcio am glefyd maethol. Nid oedd nodi na allent fforddio bwyta'n iach yn ddigon, roedd angen iddynt ymhelaethu ar hyn a sôn am gamfaethiad, clefyd diffyg neu newyn er mwyn ennill y marc.

**(b)** Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr, gwnaethant awgrymu rheswm addas dros y nifer mawr o bobl sy'n marw o HIV/AIDS.

**(c)** Roedd y cwestiwn hwn yn un syml i'r ymgeiswyr gyda'r rhan fwyaf yn ennill o leiaf un marc. Roedd atebion cywir yn cynnwys cyfeiriadau at ddiffyg diogelwch ar ffyrdd, addysg am ffyrdd ac amodau gwael ar ffyrdd.

**Cw.14** Cymedr: 3.7/9; FfH: 41.0; Cyfradd ymgeisio: 95.8%.

**(a)** **(i)** Roedd llawer o ymgeiswyr wedi enwi niwcleotid yn gywir.

**(ii)** Roedd llai o ymgeiswyr wedi enwi'r ffosffad yn gywir, sy'n dangos, er y gallent enwi'r is-uned, eu bod yn ei chael hi'n anodd enwi'r cydrannau.

**(iii)** Roedd llawer o ymgeiswyr wedi enwi'r siwgr pentos a geir mewn DNA a RNA yn gywir.

**(iv)** Yn anffodus, methodd llawer o ymgeiswyr ag enwi pedwar bas RNA yn gywir ac, felly, ni wnaethant ennill llawer o farciau yma. Mae hyn yn alw i gof uniongyrchol.

**(b)** Ni chafodd llawer o ymgeiswyr unrhyw anhawster i ddisgrifio sut mae niwcleotidau mewn moleciwl DNA wedi'u trefnu. Unwaith eto, mae'r cynnwys hwn yn cael ei alw i gof yn uniongyrchol o'r fanyleb ac ni ddylai fod wedi achosi unrhyw broblem i'r rhai a oedd wedi dysgu eu gwaith.

**Cw.15** Cymedr: 1.1/5; FfH: 21.7; Cyfradd ymgeisio: 97.5%.

**(a)** **(i)** Roedd atebion ar gyfer y rhan hon yn amrywio o fod yn gywir; coluddyn bach/coluddyn i fod yn chwerthinllyd; y neffron. Roedd yn amlwg ei bod yn bosibl nad yw llawer wedi gweld yr adeiledd hwn o'r blaen.

**(ii)** Fel arfer, aeth ymgeiswyr a enwodd yr adeiledd yn gywir ymlaen i ennill y marc hwn.

**(b)** Cwblhawyd y tabl hwn yn wael iawn gan y mwyafrif o ymgeiswyr. Ychydig iawn o farciau a ddyfarnwyd yma. Hwn oedd y cwestiwn â atebwyd y lleiaf llwyddiannus ar y papur o gryn dipyn.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Roedd yn amlwg yn y gyfres hon bod y canolfannau a oedd wedi treulio cryn dipyn o amser yn gweithio drwy'r deunydd oedd wedi'i ryddhau ymlaen llaw ac, ar y cyfan, enillodd yr ymgeiswyr farciau da yn Adran A.

Roedd sgiliau mathemategol yn broblem eto eleni a dylai canolfannau wneud yn siŵr eu bod yn ymdrin â'r agwedd hon ar y cwrs cyn yr arholiad – yn benodol dewis graffiau priodol, plotio pwyntiau'n gywir, cyfrifo canrannau a thalgrynnu i fyny/i lawr.

© WJEC CBAC Cyf

Mae hefyd angen i ganolfannau dreulio amser yn gweithio gyda setiau data gwahanol a rhifau mawr er mwyn i ymgeiswyr wybod, yn hyderus, y gwahaniaeth rhwng miliynau a biliynau.

Roedd ansawdd ymatebion ysgrifenedig a'r defnydd o iaith pwnc-benodol yn wael eleni gan nifer mawr o ymgeiswyr, a chollwyd llawer o farciau oherwydd hyn. Roedd hyn yn amlwg iawn yn y cwestiynau ateb estynedig.

Er bod y cynnwys yn ymddangos yn enfawr, mae hen ddigon o amser yn y flwyddyn i ganolfannau roi sylw i bob agwedd ar waith yr uned hon. Dylai canolfannau gyfeirio at y canllawiau i athrawon i weld faint o fanylder y dylid ei addysgu. Dylai canolfannau hefyd gofio adolygu gwaith o Unedau 2 a 3 oherwydd gellir profi'r rhain yn yr arholiad hwn. Gwelwyd eleni bod rhai atebion i gwestiynau Uned 2 yn wael ac yn dangos nad oedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud y gwaith hwn yn ystod eu gwersi.

Dylai canolfannau hefyd wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r gronfa helaeth o hen bapurau wrth baratoi ymgeiswyr gan y bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu eu techneg arholiad a'r gofynion ar gyfer gwahanol fathau o gwestiynau.

© WJEC CBAC Cyf

## GWYDDOR FEDDYGOL

**Level 3 Certificate**

**Haf 2022**

**UNED 2: TECHNEGAU MESUR FFISIOLEGOL**

### Sylwadau Cyffredinol

Roedd y gwaith a gyflwynwyd gan lawer o ganolfannau o safon uchel iawn ac roedd y penderfyniadau asesu a wnaed gan lawer o ganolfannau yn ddilys, ar y cyfan, ac yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r cymedrolwr. Fodd bynnag, nid yw rhai canolfannau yn siŵr beth sydd ei angen ar gyfer rhai o'r bandiau perfformiad. Mae'r wybodaeth hon ym manyleb y pwnc ac mae ar gael ar wefan y bwrdd arholi. Argymhellir hefyd y dylai canolfannau edrych yn ofalus ar y deunydd enghreifftiol i ymgeiswyr ar y wefan honno fel y byddant yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ar gyfer band perfformiad pob MPA.

Nodwyd eleni fod cryn dipyn o ddeunydd wedi'i gopïo'n uniongyrchol o wefannau'r GIG a gwefannau Americanaidd sy'n cynnwys gwybodaeth am yr ysgyfaint/asthma, heb sôn am gopïo oddi wrth ei gilydd. Mae'n bwysig rhoi terfyn ar achosion mor amlwg o gopïo gan na fydd ymgeiswyr yn gallu gwneud hynny mewn sefydliad AU/prifysgol, yn sicr. Yn hytrach na defnyddio testun yn uniongyrchol o wefannau meddygol, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ddehongli'r wybodaeth y maent wedi'i darllen a dangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn eu geiriau eu hunain. Bydd hyn yn osgoi achosion lle mae'n ymddangos fod ymgeiswyr wedi copïo gwaith ei gilydd. Mewn canolfannau lle mae Google Classroom a Google Docs ar gael, anogir canolfannau i ddefnyddio'r adnodd newydd a gyflwynwyd gan Google Docs i gymharu dogfennau. Gellir gwneud hyn drwy ddeis y tab 'Tools' ac yna 'Compare Documents'. Wedyn, bydd Google Docs yn agor dogfen newydd sy'n tynnu sylw at unrhyw ddarnau estynedig o waith ysgrifennu sy'n ymddangos eu bod yn union yr un peth yn y testun rhwng ymgeiswyr. Hefyd, mae gwefannau am ddim sy'n eich galluogi i chwilio am enghreifftiau o lên-ladrad yn erbyn ffynonellau ar-lein.

Nid oedd y gwaith gweinyddol wedi'i gyflwyno'n gywir bob amser, gyda thaflenni dilysu a oedd heb eu llofnodi gan yr ymgeiswyr. Roedd taflenni cofnodi marciau wedi'u cwblhau'n gywir yn y rhan fwyaf o ganolfannau ac roeddent yn cynnwys nodiadau manwl ar waith ymgeiswyr mewn llawer o ganolfannau, sy'n ddefnyddiol iawn.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

#### Tasg 1

Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi trafod egwyddorion profion ffisiolegol yn ddigon manwl h.y. sut mae'r prawf yn gweithio. Mae hon yn dasg anodd i'r ymgeiswyr, ond y cwestiwn y mae angen iddynt ei ateb yw ‘Pam y gallaf ddefnyddio'r darn hwn o gyfarpar i fesur y paramedr ffisiolegol hwn?’ Dylai fod esboniad clir a manwl o'r ffordd y gellir defnyddio'r monitor pwysedd gwaed ffisiolegol, y ddyfais anterth llif (neu unrhyw gyfarpar profi arall) a'r sgan ECG mewn profion (nid yr un peth â dull o gynnal y profion). Ar gyfer MPA1.2 mae angen i ymgeiswyr nodi rhai ffigurau cywir ar gyfer canlyniadau normal ac yna'r hyn mae'n ei olygu os bydd y canlyniadau yn uwch neu'n is na'r norm, o ran dangosyddion clefydau/anhwylderau. Mae'r ymgeiswyr yn canolbwyntio'n llwyr ar asthma a dim byd arall.

© WJEC CBAC Cyf

**Tasg 2**
MPA2.1 a 2.2. Mae angen **esbonio'r** ddau MPA hyn yn **llawn** ac yn gywir yn y cynllun ac yna eu hardystio (o fis Medi 2022 ymlaen) ar gyfer y band uchaf. Mae DD2 yn nodi bod yn rhaid i ymgeiswyr ddeall sut i ddelio â chleifion, gyda MPA2.1 yn nodi bod yn rhaid iddyn nhw **esbonio** pwysigrwydd cyfrinachedd cleifion. Ac yn debyg i hyn mae MPA2.2 yn gofyn iddyn nhw **ddisgrifio** ymddygiad tuag at gleifion. Er mwyn ennill 6 marc rhaid i ymgeiswyr ddweud llawer mwy na 'Bydda i'n siarad yn gwrtais ac yn ddigyffro iawn â'm claf'. Yn yr un modd, ni fydd 'a bydda i'n rhoi fy nghanlyniadau dan glo er mwyn cynnal cyfrinachedd' yn ennill 6 marc; nid yw'r naill na'r llall ym mand 2.

**Tasg 3 a 4**

Tasg 3 Mae MPA4.1 yn ymdrin â'r holl faterion sy'n ymwneud â phrosesu data, nid tasg 4.

**MPA4.1**: Y gofyniad clinigol a ddisgwylir yw ailadrodd mesuriad pwysedd gwaed dair gwaith. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i brosesu data drwy gyfrifo cymedr. Dylid dangos y dull cyfrifo ynghyd â'r defnydd cywir o ffigurau arwyddocaol. Mae tri darlleniad hefyd yn darparu data i fyfyrwyr fynd ymlaen i drafod ailadroddadwyedd ac allanolion yn eu gwerthusiadau (MPA4.3). Does dim angen cyfrifo cymedr canlyniadau anterth llif; dylid defnyddio'r darlleniad uchaf; mae gormod o ymgeiswyr yn gweithredu ar awtobeilot ac yn cyfrifo cymedrau anterth llif. Mae'r olinau ESG yn dangos mathemateg hynod ddyfeisgar, sy'n cynnwys blychau o bob maint a phob math o rifau ac amseriadau. Ar ôl iddynt wneud eu cyfrifiad, dylai ymgeiswyr ddefnyddio synnwyr cyffredin yma; os bydd un curiad calon bron yn ffitio i mewn i 1 eiliad, sut gall yr ateb 120BPM fod yn gywir? I'r gwrthwyneb, sut y gall BPM o 33 fod yn gywir? Mae dwy olin; dylid cyfrifo'r naill a'r llall a chyflwyno cymedr yn yr adroddiad terfynol. Gellir cyflwyno'r holl waith mathemategol ar wahân yn nhasg 3 a throsglwyddo'r ffigurau terfynol i'r pro fforma ar gyfer tasg 4.

**MPA4.3:** Mae'n achosi problemau i ymgeiswyr am eu bod yn tueddu i ailadrodd popeth y maent wedi'i nodi yn 4.2 (casgliadau am iechyd cleifion sy'n seiliedig ar ganlyniadau profion) ond wedi'i eirio'n wahanol. Am ei bod yn bosibl nad ydynt wedi gwerthuso unrhyw beth, nid ydynt yn ennill unrhyw farciau. Er mwyn gwerthuso, rhaid i'r ymgeiswyr asesu'r ffordd y mae'r profion wedi cael eu llunio a'u cynnal a'u canlyniadau, gan wneud awgrymiadau posibl ar gyfer gwelliant. Pa mor effeithiol y mae'r profion wedi bod o ran galluogi'r ymgeiswyr i ddod i gasgliadau; a yw'r data yn ddibynadwy ac yn gyson, pa mor ddilys yw'r data, a yw'r canlyniadau yn gywir, a gafodd y profion eu cynnal yn gywir? Mae hyn yn arwain wedyn at y cwestiwn nesaf ar y ffurflen sy'n gofyn i ymgeiswyr awgrymu ffactorau a allai fod wedi effeithio ar ganlyniadau'r profion (MPA1.3).

**MPA4.4:** Mewn gwirionedd, mae'n cael ei asesu drwy gydol yr aseiniad cyfan. Mae angen i ymgeiswyr fod yn llawer mwy ymwybodol o'r ffaith bod yr iaith yn maent yn ei defnyddio ar gyfer taflenni'r cleifion a'u cyswllt â chleifion yn wahanol iawn i'r iaith y byddent yn ei defnyddio i gyflwyno gwaith i feddyg ymgynghorol/pennaeth adran/meddyg teulu. Gallant ddefnyddio terminoleg lawer mwy gwyddonol ar y ffurflen, gan wybod y byddai'n cael ei deall yn llawn.

Nid oes angen esbonio'n holl waith mathemategol (a wneir yn nhasg 3), y cyfan y mae angen i'r meddyg ymgynghorol/eq ei wybod yw'r canlyniadau.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Dilynodd y mwyafrif helaeth o'r canolfannau yr aseiniad enghreifftiol a'r meini prawf asesu wrth asesu a chynhyrchu gwaith a oedd wedi'i farcio'n deg ac yn gyson. Diolch.

© WJEC CBAC Cyf

Nid ystyriodd lleiafrif bach o'r canolfannau yr addasiadau ar gyfer 2022.  Nid oedd angen i ymgeiswyr gynnal profion seicolegol yn 2021 na 2022 am resymau'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Mae asesiad wedi'i addasu (gyda'r MPAau perthnasol wedi'u dileu) wedi bod ar gael i ganolfannau ers mis Medi 2020. Roedd hyd at 72 marc ar gael ar gyfer yr asesiad eleni. Ni ellid dyfarnu marciau i'r ymgeiswyr hynny a gynhaliodd yr asesiad anghywir ar gyfer yr adrannau a oedd wedi cael eu dileu.

© WJEC CBAC Cyf

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Level 3 Certificate**

**Haf 2022**

**UNED 3: DULLIAU YMCHWIL GWYDDOR FEDDYGOL**

## Sylwadau Cyffredinol

Yn gyffredinol roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn dda ac roedd yr asesiadau gan y canolfannau'n gywir ar y cyfan ac roedd y cymedrolwyr yn cytuno â nhw. Roedd yn braf gweld bod llawer o ganolfannau wedi ymateb i'r sylwadau a wnaethpwyd mewn adroddiadau blaenorol gan gymedrolwyr.

Roedd y gwaith gweinyddol yn gywir gan fwyaf, a'r ymgeiswyr wedi llofnodi taflenni dilysu. Ni ddefnyddiodd rhai canolfannau y fersiwn ddiwygiedig o'r pro fforma Gwerthusiad Moesegol. Roedd gan y rhan fwyaf o'r canolfannau anodiadau clir ar waith yr ymgeiswyr a oedd yn dangos pam roedd bandiau a marciau penodol wedi'u dyfarnu ar gyfer y meini prawf asesu unigol ac yna cafodd y marciau hyn eu trosglwyddo'n gywir i'r Daflen Cofnodi Marciau. Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r canolfannau waith yr ymgeiswyr fel un ffeil yn hytrach nag fel sawl dogfen a wnaeth y broses gymedroli yn symlach.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Tasg 1: Cynllunio i gynnal yr ymchwiliad

**MPA1.1**: Enillodd yr ymgeiswyr gwell farciau band 3 yma gan roi disgrifiadau clir o'r newidynnau yn ogystal â sut y cawsant eu mesur neu, ar gyfer y newidynnau allanol, sut y cawsant eu rheoli neu sut y cafodd eu heffaith ei lleihau. Roedd yr ymgeiswyr gwannach yn aml yn ei chael hi'n anodd mynegi newidynnau mesuradwy neu'n nodi oedran a rhywedd fel y newidyn annibynnol. Dim ond un newidyn annibynnol a all fod. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr grwpiau ethnig neu grefydd fel eu newidyn annibynnol. Er bod y rhain wedi rhoi data diddorol, roedd y gwaith dadansoddi yn anodd am fod cynifer o grwpiau i'w hystyried. Mae nodi 'agweddau' fel y newidyn dibynnol yn rhy amwys ac mae angen disgrifiad pellach o'r hyn yr ymchwilir iddo.  Roedd nifer bach o ymgeiswyr yn bwriadu mesur lefel imiwnedd i'r ffliw fel eu newidyn dibynnol. Nid 'agwedd' yw hon ac mae hefyd yn amhosibl ei mesur gan ddefnyddio holiadur.

**MPA1.2**: Er ei bod yn hanfodol dyfynnu rhagdybiaeth yr ymchwiliad, mae'r marciau'n cael eu rhoi am ei chyfiawnhau. Dylai ymgeiswyr ystyried pam maen nhw wedi dewis ymchwilio i'r rhagdybiaeth hon a pham gallai'r wybodaeth a gynhyrchir fod yn werthfawr. Collodd llawer o ymgeiswyr farciau yma drwy sôn am ragdybiaeth ungynffon neu ddwygynffon yn unig.

**MPA1.3 ac 1.4:**  Atebwyd y rhain yn dda ar y cyfan gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd yr atebion gorau'n cyfeirio at sut gellid dadansoddi'r data, er enghraifft, drwy roi enghreifftiau o gwestiynau a fyddai'n cynhyrchu data ar gyfer lluniadu graffiau neu y gellir eu defnyddio ar gyfer prawf ystadegol a enwir. Nid oes angen trafod yr holl dechnegau samplu er mwyn ennill marciau ym Mand 3 ar gyfer MPA1.3, dim ond y rheswm dros ddewis y dechneg gan gynnwys manteision ac anfanteision y dull samplu.

© WJEC CBAC Cyf

**Tasg 2: Casglu gwybodaeth**

**MPA2.1**: I ddyfarnu Band 3, mae angen i'r cynllun fod yn ddigon manwl i gael ei ddilyn gan drydydd parti. Er enghraifft, nid yw'n ddigon dweud y caiff yr holiadur ei rannu. Sut caiff ei rannu? Roedd rhai ymgeiswyr wedi colli'r holl farciau oedd ar gael yma drwy beidio â chynnwys cynllun.

**MPA2.2**: Hon oedd y sesiwn gyntaf i'r rhan fwyaf o ganolfannau gofrestru ymgeiswyr gan ddefnyddio'r asesiad ‘Pigiad Ffliw’ ac roedd yn galonogol gweld gwelliant cyffredinol yn ansawdd yr holiaduron gan fod ymgeiswyr yn defnyddio eu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â brechu yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae rhai yn cynnwys gormod o gwestiynau amherthnasol o hyd. O ganlyniad, cynhyrchir llawer gormod o ddata nad ydynt yn gysylltiedig â'r rhagdybiaeth, sy'n golygu ei bod yn anodd gwneud gwaith dadansoddi. Roedd hefyd yn arwain at ymchwiliadau oedd yn llawer rhy hir.

**MPA2.3**: Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farciau Band 3 yma. Dylid annog ymgeiswyr i gasglu eu data crai a'u cyflwyno nhw mewn tablau sydd wedi'u labelu'n addas. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at MPA5.1.

**Tasg 3: Dadansoddi'r data**

Drwy gydol y dasg hon, dylid dangos tystiolaeth bod yr ymgeiswyr yn deall ac yn cymhwyso'r termau a ddefnyddir wrth ddadansoddi data. Os defnyddir prawf ystadegol, dylid defnyddio termau fel graddau rhyddid, tebygolrwydd, gwerth critigol a pharamedrig a'u hesbonio yn y cyd-destun cywir. Mae llawer o ymgeiswyr yn defnyddio'r derminoleg gywir ond nid ydynt yn ei hesbonio neu'r cyfan y maent yn ei wneud yw rhestru'r termau a'u diffinio. Ni fydd hyn yn ennill unrhyw farciau oni chaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun y dadansoddiad.

Dylai ymgeiswyr esbonio pam maen nhw wedi dewis prawf ystadegol gan ddefnyddio termau fel enwol, categorïaidd neu drefnol i ddisgrifio eu data. Gallai termau eraill gynnwys cydberthyniad, gwahaniaeth ystadegol, tuedd a dosraniad normal. Os oes angen, dylid datgan y rhagdybiaeth nwl cyn cynnal y prawf. Sylwch y dylai'r rhagdybiaeth nwl gynnwys y geiriau 'does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng …'

Bydd prawf ystadegol sydd wedi'i drefnu a'i ddadansoddi'n dda'n bodloni llawer o'r meini prawf asesu gan gynnwys MPA3.1, MPA4.2 ac MPA4.4. Mae'n dderbyniol defnyddio taenlen Excel i ddadansoddi'r data, ond os yw ymgeiswyr yn dangos camau cyfrifo'r prawf ystadegol bydd hyn yn eu helpu i ennill marciau ar gyfer MPA4.1 ac MPA4.2.

**MPA4.1**: Mae'n galonogol bod mwy o ymgeiswyr bellach yn defnyddio prawf ystadegol megis sgwâr-Chi neu Mann Whitney yn gywir i ddadansoddi data. Mae llawer o ymgeiswyr yn dal i anghofio dweud pam eu bod wedi dewis prawf penodol, gan golli marciau ar gyfer MPA3.2. Mae rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ddata addas i'w dadansoddi. Gellir defnyddio prawf sgwâr-Chi i ddadansddi atebion ie/nage syml i gwestiynau. Nid yw gwyriad safonol a ddefnyddir i fesur ystod oedran y cyfranogwyr (y newidyn annibynnol) yn brawf dilys yn y cyd-destun hwn.

**MPA4.2**: Yr atebion gorau yma yw'r rhai sy'n gallu cysylltu'r casgliadau â'r dystiolaeth ac â'r rhagdybiaeth nwl mewn modd clir a rhesymegol. Nododd llawer o ymgeiswyr y byddent yn derbyn/gwrthod eu rhagdybiaeth gan adael i'r cymedrolwr ddylafu beth oedd eu rhagdybiaeth.

**MPA4.3**: Mae angen i'r ymgeiswyr werthuso eu data a/neu eu gweithdrefnau. Gellid cyfeirio yma at nifer y bobl yn y sampl, tuedd, dibynadwyedd y data a gasglwyd ynghyd ag unrhyw welliannau posibl.

© WJEC CBAC Cyf

**MPA4.4**: Mae'r defnydd gwell o brofion ystadegol wedi gwneud yr MPA hwn yn fwy hygyrch gyda llawer o ymgeiswyr yn defnyddio nodiant mathemategol a ffigurau arwyddocaol yn gywir.

**Tasg 5: Paratoi cyflwyniad**

**MPA5.1**: Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu data mewn modd gweledol sy'n addas i gynulleidfa o wyddonwyr a phobl sydd ddim yn wyddonwyr. Mae angen i bob tabl a graff fod wedi'i gynllunio'n gywir. Mae angen penawdau clir ar golofnau tablau (cysylltu ag MPA 2.3 ac MPA4.4) ac mae angen labelu graffiau'n llawn. Roedd llawer o graffiau oedd wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio taenlenni Excel wedi'u cyflwyno heb echelinau wedi'u labelu. Mae'n well cyflwyno data categorïaidd fel siart far yn hytrach na chopïo a chludo siart gylch o ddogfen ar google.

**MPA5.2**: Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cyflwyno cyflwyniadau o ansawdd da, gan ddefnyddio PowerPoint fel arfer.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae rhestr o derminoleg a nodiant mathemategol ar gael yn y llyfryn Canllawiau Addysgu.

Dylai holiaduron fod yn berthnasol i'r rhagdybiaeth ymchwil er mwyn osgoi casglu data amherthnasol.

Rhaid cynnwys cynllun i ennill marciau ar gyfer MPA2.1 ac mae angen rhywfaint o esboniad o pam mae profion ystadegol penodol yn cael eu defnyddio ar gyfer MPA3.2.

Atgoffir canolfannau bod gwaith enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gael i'w weld ar wefan ddiogel CBAC.

© WJEC CBAC Cyf

**GWYDDOR FEDDYGOL**

**Lefel 3 Diploma**

**Haf 2022**

**UNED 4: MEDDYGINIAETHAU A THRIN CLEFYDAU**

**Sylwadau Cyffredinol**

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer y canolfannau a gyflwynodd waith ar gyfer yr uned hon yn y gyfres hon o gymharu â chyfresi blaenorol. Cyflwynodd y canolfannau ychwanegol hyn waith am y tro cyntaf ar gyfer yr uned hon.

Ar y cyfan, roedd ansawdd y gwaith a gyflwynwyd gan ganolfannau sydd wedi cyflwyno gwaith yn flaenorol o safon dda ac roedd y mwyafrif o'r penderfyniadau asesu a wnaed gan y canolfannau yn gywir ac yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r cymedrolwr.

Fodd bynnag, roedd safon yr asesu gan y canolfannau a oedd yn cyflwyno gwaith am y tro cyntaf yn amrywio'n fawr. Roedd rhai canolfannau wedi dilyn y canllawiau ac wedi cynhyrchu gwaith i safon uchel a oedd wedi'i asesu'n deg ac yn gywir. Fodd bynnag, roedd nifer mawr o ganolfannau yn rhy hael o ran eu penderfyniadau asesu ac nid oeddent wedi dilyn y canllawiau wrth asesu gwaith na'r aseiniad enghreifftiol a ddarperir. O ganlyniad, cafodd gwaith pob ymgeisydd ei ailasesu a'i farcio yn unol â hynny.

Roedd yn amlwg, ar gyfer rhai darnau o waith, fod sylwadau wedi'u gwneud gan aseswyr ynghylch pa radd roedd yr ymgeiswyr wedi'i chael a sylwadau a oedd yn awgrymu bod gwaith wedi'i ddychwelyd i ymgeiswyr i'w wella. Atgoffir canolfannau na chaniateir i ymgeiswyr wella gwaith mewn unrhyw ffordd ar ôl iddo gael ei gyflwyno ac, oherwydd natur y broses gymedroli, y dylai canolfannau fod yn ofalus wrth roi adborth am fod marciau ymgeiswyr yn gallu newid.

Roedd y mwyafrif o'r canolfannau wedi cyflwyno'r gwaith gweinyddol cywir, gyda thaflenni dilysu wedi'u llofnodi gan yr ymgeiswyr. Roedd y rhan fwyaf o'r canolfannau wedi cwblhau'r daflen cofnodi marciau yn gywir ac roedd anodi ar waith ymgeiswyr yn y rhan fwyaf o achosion a oedd yn ddefnyddiol, ar y cyfan, yn ystod y broses gymedroli.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Gweler yr aseiniad enghreifftiol ar gyfer Uned 4 a geir ar wefan ddiogel CBAC am fanylion llawn yr asesiad**

**Tasg 1**

Disgwylir i ymgeiswyr weithio mewn grwpiau, lle y bo'n bosibl, er mwyn cwblhau dau gyflwyniad i staff nyrsio.

Roedd y deunyddiau cyflwyno a gyflwynwyd o safon uchel ac roedd yn amlwg lle roedd ymgeiswyr wedi ennill marciau. Roedd aseswyr wedi anodi gwaith lle roedd yn briodol ac wedi cwblhau'r cofnod arsylwi yn y mwyafrif helaeth o achosion. Darparwyd nodiadau siaradwyr hefyd ac, felly, roedd yn amlwg pa ran roedd pob ymgeisydd wedi'i chyflwyno. Mae hon yn enghraifft o arfer dda.

© WJEC CBAC Cyf

Wrth gwblhau eu cyflwyniadau, gofynnir i ymgeiswyr yn benodol roi adroddiad myfyriol am eu cyfraniad at waith tîm (MPA4.3). Er y gall yr aseswr wneud sylwadau ar hyn ar y cofnod arsylwi ac y dylai wneud hynny, mae'r myfyrio yn ddarn penodol o dystiolaeth fel y'i rhestrir yn yr aseiniad enghreifftiol. Felly, disgwylir i'r adroddiadau myfyriol hyn gael eu cynnwys gyda chyflwyniad a deunyddiau siaradwyr yr ymgeisydd ynghyd â'r cyfnod arsylwi. Ni ddylai aseswyr roi unrhyw farciau os nad yw'r adroddiad myfyriol wedi'i gyflwyno.
Nodwyd bod llawer o ganolfannau wedi hepgor yr adroddiadau myfyriol hyn eleni ond eu bod wedi rhoi marciau i'w hymgeiswyr am eu cyfraniadau o hyd. O ganlyniad, roedd gormod o farciau wedi'u dyfarnu gan rai canolfannau ar gyfer y maen prawf asesu hwn. Ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol, gwnewch yn siŵr bod yr adroddiad myfyrio priodol wedi'i gynnwys os byddwch yn dyfarnu unrhyw farciau ar gyfer y MPA hwn.

**Tasg 2**

Gofynnir i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am bedair meddyginiaeth wahanol ar gyfer tasg 2. Dylai'r meddyginiaethau hyn dargedu tri chlefyd/cyflwr sy'n effeithio ar dair o systemau'r corff a restrir yn y canllawiau i athrawon a dylai'r bedwaredd feddyginiaeth fod yn un sy'n targedu cyfrwng achosol e.e. bacteria, feirws neu ffyngau.

Ni ddylai canolfannau ddefnyddio brechlyn fel un o'r meddyginiaethau am mai mesur ataliol y hwn yn hytrach na thriniaeth. Ac ni ddylai canolfannau ddewis meddyginiaethau ar gyfer systemau'r corff nas rhestrir yn y fanyleb/canllawiau i athrawon ar gyfer yr uned hon. Mae digon o feddyginiaethau diddorol y gellir dewis o'u plith o fewn systemau'r corff a restrir.

Roedd safon y dasg hon yn amrywio'n fawr. Mewn rhai canolfannau dyfarnodd aseswyr farciau am waith er nad oedd yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o gwbl ar gyfer y maen prawf asesu penodol.
Roedd y dull a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r asesiad i ymgeiswyr yn golygu, mewn llawer o achosion, nad oedd ymgeiswyr yn gallu ennill yr holl farciau ar gyfer y dasg.
At hynny, dyfarnodd rhai canolfannau farciau pan nad oedd unrhyw dystiolaeth o'r MPA ar y wybodaeth am bob meddyginiaeth.

Dylai canolfannau edrych ar y deunyddiau enghreifftiol ar gyfer yr uned hon a geir ar wefan ddiogel CBAC er mwyn gweld cynlluniau sy'n addas ac a fydd yn galluogi ymgeiswyr i weld yr holl feini prawf asesu ar gyfer y dasg hon.

Wrth gwrs, asesodd llawer o ganolfannau waith ymgeiswyr yn briodol ac yn deg ac roedd y meddyginiaethau a ddewiswyd yn addas. Roedd llawer o enghreifftiau o waith a gyflwynwyd i safon uchel, a oedd yn galonogol.

Pwyntiau penodol i'w hystyried.

**MPA 2.1**: Yn aml, nid oedd yr esboniadau a ddarparwyd yn cynnwys digon o fanylion am sylfaen foleciwlaidd effaith meddyginiaeth. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am y rhyngweithio rhwng cyffur a derbynyddion ar gyfer pob meddyginiaeth a'r ffyrdd posibl y mae'r feddyginiaeth yn gweithio. Rhaid i'r rhain fod yn amlwg ar gyfer y wybodaeth am bob meddyginiaeth er mwyn dyfarnu'r band uchaf. Pan fydd rhannau wedi'u hepgor dylid lleihau marciau yn unol â hynny.

**MPA 2.2**: Dylai ymgeiswyr gyfeirio'n uniongyrchol at systemau'r corff y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arnynt yn hytrach na dim ond trafod yr organ unigol y mae'r feddyginiaeth yn effeithio arno. Ceir rhestr gynhwysfawr o systemau'r corff yn y fanyleb a byddai angen i ymgeiswyr ddewis tair system wahanol yn y corff er mwyn ennill marciau'r band uchaf.

© WJEC CBAC Cyf

**MPA 2.4**: Yn aml, ni roddodd ymgeiswyr esboniad addas/esboniad digon manwl o pam y gall meddyginiaethau golli eu heffeithiolrwydd ar gyfer pob un o'r meddyginiaethau a drafodir. Mae angen i ymgeiswyr roi'r esboniad hwn ar gyfer pob un o'r meddyginiaethau a drafodir er mwyn ennill marciau'r band uchaf (mae'r band hwn yn nodi meddyginiaethau ac enghreifftiau yn glir). Os nad yw'r feddyginiaeth y mae'r ymgeisydd yn ei hastudio yn colli ei heffeithiolrwydd, yna mae'n briodol nodi hyn yn eu gwybodaeth feddygol

**MPA 2.5**: Dyfarnodd aseswyr farciau uchel eleni ar restrau o gyffuriau sy'n rhyngweithio â'r feddyginiaeth. Nid yw hyn yn ddigonol. Rhaid cymharu'r ffordd y mae'r meddyginiaethau yn rhyngweithio â'i gilydd, p'un a yw'r effeithiau yn rhai cadarnhaol neu negyddol.

**MPA 2.7**: Yn aml, methodd ymgeiswyr ag esbonio'n glir **sut** mae adweithiau anffafriol i feddyginiaethau yn digwydd. Yn lle hynny, dim ond rhestr o adweithiau anffafriol posibl a ddarparwyd ganddynt. Os mai dim ond rhestr o adweithiau anffafriol/sgil-effeithiau a ddarperir, dim ond dau farc ym mand 1 y caiff ymgeiswyr eu hennill ar gyfer y maen prawf asesu hwn.

**MPA 4.2**: Dyma gyfiawnhad yr ymgeiswyr o'u dull o gyfleu'r wybodaeth am y meddyginiaethau. Dylai gynnwys cyfiawnhad o ran pam na wnaethant ddewis dull gwahanol o gyfleu'r wybodaeth er mwyn iddo ennill marciau band 3. Unwaith eto, fel gyda MPA 4.3, os na fydd hyn i'w gael yn y gwaith, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau amdano.

**Tasg 3**

Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth am ganser ar gyfer tasg 3.
Roedd ansawdd y dasg hon yn dda iawn, ar y cyfan, gyda'r canolfannau yn deall y briff yn dda ac ymgeiswyr yn cynhyrchu gwaith o safon dda.

Gwnaeth rhai canolfannau farcio'r dasg hon yn hael a dylent sicrhau yn y dyfodol, wrth ddyfarnu marciau bandiau uwch, fod y wybodaeth a ddarparwyd yn ddigon manwl.

**MPA 3.3**: Er mwyn i ymgeiswyr ennill marciau'r band uchaf, rhaid iddynt ddisgrifio pob un o'r pum opsiwn ar gyfer triniaeth a restrir yn y fanyleb. Pan na fydd ymgeiswyr wedi disgrifio'r amrywiaeth lawn yn ddigon manwl, dylid dyfarnu marciau iddynt yn unol â hynny. Roedd llawer o ganolfannau yn dyfarnu 6 marc am wybodaeth nad oedd yn ddigon manwl ac nad oedd yn ymdrin â'r holl opsiynau ar gyfer triniaeth sydd ar gael.

**MPA 3.4**: Y maen prawf asesu hwn oedd yr un a gafodd ei farcio'n fwyaf hael ar gyfer y dasg hon o bell ffordd. Dyfarnodd llawer o aseswyr farciau am ddisgrifiadau o'r gwahanol opsiynau sydd ar gael o ran triniaeth newydd ar gyfer canser Nid dyna sydd ei angen ar gyfer y maen prawf asesu hwn. Rhaid i ymgeiswyr asesu effaith y driniaeth newydd yn ogystal â darparu rhywfaint o wybodaeth am bob triniaeth newydd a restrir yn y fanyleb. Pan na fydd unrhyw asesiad wedi'i gynnal, ni ddylid dyfarnu marciau uchel i ymgeiswyr.

**MPA 4.1**: Dyfarnwyd marciau yma am y dull o gyfleu'r wybodaeth am ganser. Mae rhai canolfannau yn dyfarnu marciau uchel iawn am waith na fyddai'n cael ei ystyried yn briodol iawn. Caniatawyd hyn eleni ond byddwch yn ofalus wrth asesu gwaith a gyflwynir yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Cynhyrchodd canolfannau a ddilynodd yr aseiniad enghreifftiol a'r meini prawf asesu wrth asesu, waith a oedd wedi'i farcio'n deg ac yn gyson. Diolch.

© WJEC CBAC Cyf

Roedd rhai canolfannau yn rhy hael, yn enwedig gyda thasg 2. Peidiwch â dyfarnu marciau os bydd gwaith wedi'i hepgor ac edrychwch ar y fanyleb, y canllawiau i athrawon, yr aseiniad enghreifftiol a'r deunyddiau enghreifftiol ar gyfer yr uned hon ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol.

© WJEC CBAC Cyf

## GWYDDOR FEDDYGOL

## Lefel 3 Diploma

## Haf 2022

## UNED 5: TECHNEGAU LABORDY CLINIGOL

### Sylwadau Cyffredinol

Mae'r uned hon yn cael ei hasesu'n allanol drwy aseiniad sy'n cael ei ddarparu gan CBAC yn flynyddol ym mis Medi ym mhob blwyddyn academaidd. Mae ar gael i'w llwytho i lawr o wefan ddiogel CBAC ac eleni roedd yn seiliedig ar ganlyniadau archwiliadau post-mortem.

Roedd cynnydd sylweddol yn nifer y canolfannau a gyflwynodd waith ar gyfer yr uned hon yn y gyfres hon. Roedd y gwaith a gyflwynwyd gan y rhan fwyaf o'r canolfannau'n dda, er bod ymgeiswyr o rai canolfannau wedi methu cwblhau'r tasgau i gyd. Mae'r bandiau perfformiad ar gyfer yr uned hon ar gael yn y fanyleb a gallai fod o werth rhannu hon â'r ymgeiswyr cyn iddynt ddechrau'r aseiniad, oherwydd nid pawb oedd wedi cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Gweithgaredd 1 – Defnyddio Technegau Labordy Clinigol.

Mae'r marciau cymedrig, y ffactorau hygyrchedd a chanran y gyfradd ymgeisio ar gyfer MPA perthnasol yn y gweithgaredd hwn fel a ganlyn (noder bod marciau MPA3.4 yn dod o'r ddau weithgaredd):

MPA2.1: Cymedr: 7.2/9; FfH: 80.3; Cyfradd ymgeisio: 99.9%
MPA2.2: Cymedr: 17.3/18; FfH: 96.3; Cyfradd ymgeisio: 99.9%
MPA2.3: Cymedr: 1.4/4; FfH: 36.0; Cyfradd ymgeisio: 99.9%
MPA3.4: Cymedr: 5.3/6; FfH:88.2; Cyfradd ymgeisio: 99.9%

Mae tasgau'r gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â'r disgwyl i'r ymgeiswyr gynllunio a chynnal yr ymchwiliad, casglu canlyniadau ac yna eu crynhoi mewn adroddiad ar wahân. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu ennill marciau ar gyfer pob maen prawf asesu. Roedd MPA 2.1 yn gofyn i'r ymgeiswyr gynllunio tri phrawf, ac i gael marciau llawn roedd disgwyl iddynt wneud y canlynol:

- dweud beth oedd bwriad pob prawf
- ysgrifennu dull cryno, ond cywir fyddai'n gweithio (e.e. nid prawf llinell, oherwydd roedd rhaid cyfrifo niferoedd cytrefi)
- nodi'r canlyniadau disgwyliedig.

Does dim angen i ymgeiswyr brofi mwy nag un set o samplau; dim ond un set sy'n ofynnol gan y sgript.

Mae'n rhaid i'r cofnod arsylwi, a ddarperir i'r aseswr ei gwblhau, gynnwys y marc am y profion ar gyfer MPA 2.2.

Wrth gofnodi'r data ar gyfer MPA 2.3, cafodd marciau eu colli oherwydd diffyg esboniad o beth roedd angen iddynt ei wneud yn y cyfrifiad, diffyg manwl gywirdeb, ffurf safonol ac unedau.

© WJEC CBAC Cyf

Yma, roedd MPA 3.4 yn gofyn am grynodeb byr. Collodd rhai ymgeiswyr farciau am beidio â chydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn ac ysgrifennu am y tasgau ymarferol unwaith eto.

Nid yw'n hanfodol gwneud y gwaith ar brosesydd geiriau, ac mae hefyd weithiau'n arwain at golli marciau oherwydd anghywirdeb e.e. sillafu a ffurf safonol. Yn bendant, nid yw'n ddefnyddiol i'r ymgeiswyr wneud ymchwil, ysgrifennu eu gwaith â llaw yn gyntaf ac yna ar brosesydd geiriau, fel y gwelwyd gan lawer o ganolfannau. Byddai'n anodd iawn cwblhau'r holl waith gofynnol o fewn yr amser a ganiateir (4.5 awr).

**Gweithgaredd 2 - Profi clinigol.**

Mae'r marciau cymedrig, y ffactorau hygyrchedd a chanran y gyfradd ymgeisio ar gyfer MPA perthnasol yn y gweithgaredd hwn fel a ganlyn (noder bod marciau MPA3.4 yn dod o'r ddau weithgaredd):

MPA1.1: Cymedr: 10.5/18; FfH: 58.1; Cyfradd ymgeisio: 99.7%
MPA1.2: Cymedr: 1.0/7; FfH: 14.7; Cyfradd ymgeisio: 99.5%
MPA3.1: Cymedr: 4.6/6; FfH: 76.0; Cyfradd ymgeisio: 96.3%
MPA3.2: Cymedr: 3.8; FfH: 63.1; Cyfradd ymgeisio: 93.0%
MPA3.3: Cymedr: 3.7/6; FfH: 62.2; Cyfradd ymgeisio: 99.2%
MPA3.4: Cymedr: 5.3/6; FfH:88.2; Cyfradd ymgeisio: 99.9%

Roedd y tasgau hyn yn fwy arwahanol. Roedd ymgeiswyr yn aml yn colli marciau am y dasg gyntaf, ac roedd y mwyafrif yn gwneud yr ail dasg yn dda.

Roedd tasg 1 yn gofyn i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth, yr oedd angen iddi fod yn gryno, am egwyddorion y tri phrawf. Nid esboniodd llawer o ymgeiswyr sut roedd y prawf yn gweithio mewn gwirionedd. Mae manylion am yr hyn y dylid bod wedi'i ddysgu i'r ymgeiswyr i'w cael yn y fanyleb ac yn y canllawiau i athrawon ar gyfer MPA 1.1.

Ychydig iawn o ymgeiswyr a gynhwysodd wybodaeth fanwl ar gyfer MPA 1.2 am y ffactorau fyddai'n effeithio ar bob un o'r tri phrawf ac roedd llawer o ymgeiswyr wedi colli marciau yma; dim ond lleiafrif a roddodd esboniad cywir, manwl a chydlynol â rhesymu manwl ynglŷn â'r ffactorau, gan gynnwys sut yr effeithid ar y canlyniadau ym mhob achos. Mae angen mwy na pharagraff generig – dylid esbonio pam mae pob ffactor yn cyfyngu ar ganlyniadau'r profion a nodwyd.

Roedd tasg 2 yn ddadansoddiad o ganlyniadau a roddwyd i'r ymgeiswyr gan ddefnyddio'r gwerthoedd normadol a roddwyd. Ar gyfer MPA 3.1, roedd angen graff â graddfeydd addas a dylai fod wedi'i luniadu a'i labelu'n fanwl gywir. Graffiau wedi'u lluniadu â llaw a dueddai i ennill y marciau uchaf; mae graffiau electronig yn rhoi'r ymgeiswyr o dan anfantais am na allant fodloni'r holl feini prawf marcio.

Roedd angen cyfrifo cymedrau ar gyfer MPA 3.2 er mwyn i'r graff gael ei lunio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn llwyddo i wneud y cyfrifiadau hyn, ond roedd llawer yn methu esbonio beth roedd angen ei wneud. Mae'r band perfformiad yn nodi bod angen cyflwyno cyfrifiadau yn glir ac yn rhesymegol gan ddefnyddio ffigurau ystyrlon cyson a chywir. Collodd llawer o ymgeiswyr farciau am yr agweddau hyn.

Roedd y marciau am MPA3.3 yn tueddu i fod yn dda, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dadansoddi'r data gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a roddwyd. Eto, ni ddylid rhoi diagnosis a dylai'r wybodaeth fod yn gryno.

© WJEC CBAC Cyf

O fewn MPA 3.4 mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn “defnyddio strwythur priodol” er mwyn sicrhau na fydd ymgeiswyr yn colli marciau yma, byddai'n ddefnyddiol pe na bai tasgau wedi'u rhannu.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Ar y cyfan, cyflwynwyd gwaith o safon dda gan y rhan fwyaf o'r canolfannau gyda llawer o athrawon yn rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr i allu ennill y marciau uchaf. Roedd rhai darnau o waith wedi'u hanodi gan athrawon, sy'n ddiangen yma gan fod CBAC yn marcio'r gwaith. Roedd rhai sgriptiau hefyd yn cynnwys agweddau oedd yn debyg iawn a dylid nodi y dylid gwneud y gwaith hwn yn unigol ac nid fel rhan o grŵp. Roedd rhai ymgeiswyr wedi gwneud llawer iawn o waith diangen ac wedi cyfeirio'r ymchwil hwn. Mae hyn yn wastraff amser iddynt oherwydd dylent fod wedi dysgu popeth mae angen ei wybod i gwblhau'r tasgau hyn ac mae'n rhaid bod gorfod cwblhau'r gwaith ychwanegol hwn o fewn yr amser a ganiateir wedi effeithio ar ansawdd y gwaith gofynnol.

Cyflwynodd y rhan fwyaf o ganolfannau y gwaith gweinyddol gofynnol yn gywir. Fodd bynnag, nid oes angen cyflwyno ffolderi na phocedi plastig. Ddylai'r gwaith ddim bod yn fwy na rhywfaint o daflenni, felly mae styffylu gwaith pob ymgeisydd at ei gilydd yn ddigonol. Dylid nodi ei bod yn hanfodol atodi cofnod arsylwi'r athro wedi'i gwblhau a thaflen ddilysu wedi'i llofnodi i waith yr ymgeiswyr.

© WJEC CBAC Cyf

## GWYDDOR FEDDYGOL

### Lefel 3 Diploma

### Haf 2022

### UNED 6:ASTUDIAETH ACHOS FEDDYGOL

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Roedd y cwestiynau yn y papur hwn yn seiliedig ar ddeunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw a oedd ar gael bedair wythnos cyn yr arholiad. Roedd yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw / ffolder adnoddau yn cynnwys gwybodaeth am dri chyflwr meddygol: Ffibrosis cystig, Colli Clyw a Chlwy'r Pennau. Roedd disgwyl i ymgeiswyr astudio ac ymchwilio'r wybodaeth a gyflwynir yn y ffolder cyn yr arholiad. Roedd yr uned hon hefyd yn gofyn i ymgeiswyr nodi a defnyddio detholiad priodol o sgiliau, technegau, cysyniadau, damcaniaethau a gwybodaeth o bob rhan o gynnwys y cwrs.
Roedd yn braf gweld bod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob un o'r cwestiynau.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cwestiynau 1-5 Astudiaeth Achos 1:Ffibrosis cystig**

Cymedr: 10.4/25; FfH: 41.5; Cyfradd ymgeisio: 100%.

**Cw.1** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio proses trawsgrifiad. Llwyddodd llawer i ennill marciau llawn ac roedd y rhan fwyaf yn gallu defnyddio'r wybodaeth yn y diagram i ennill rhywfaint o'r marciau a oedd ar gael. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr yn cymysgu trawsgrifiad â throsiad.

**Cw.2** Yn rhannau (a) a (b) roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi enwi lliw'r fflam os oedd ïonau sodiwm yn bresennol, yn gywir. Fodd bynnag, roedd llawer o ymgeiswyr yn credu bod y cyffur Pilocarpin yn cael ei ddefnyddio i fesur crynodiad halen mewn chwys, gan golli'r cyswllt â chynhyrchu chwys. Yn rhan (c) (i) roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cyfrifo'r gwerth cymedrig ar gyfer dadansoddiad colorimetreg yn gywir ac wedi defnyddio ffigurau arwyddocaol yn gywir, ond collodd llawer y marc am grynodiad ïon clorid drwy beidio â darllen y gwerth yn gywir o'r graff. Cafodd rhan (c) (ii) ei hateb yn dda.

**Cw.3** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymgeiswyr ddisgrifio electrofforesis gel ac yna ddadansoddi canlyniad electrofforesis syml.

**(a)** Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farciau da yma drwy roi disgrifiad clir o'r broses er bod rhywfaint o gymysgu ag adwaith cadwynol polymeras.

**(b)** Cafodd y cwestiwn hwn ei ateb yn dda, ar y cyfan, ond ceisiodd ychydig o ymgeiswyr ddisgrifio croesiad genynnol.

© WJEC CBAC Cyf

**Cw.4** Roedd y cwestiwn hwn yn ymwneud â sut mae dau gyffur yn gweithredu a nodir yn y deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw y cafodd ymgeiswyr gyfle i ymchwilio iddynt cyn yr arholiad.

**(a)** Ychydig iawn o ymgeiswyr oedd yn gallu disgrifio rôl sianeli CFTR wrth gynhyrchu mwcws gwanedig. Collodd rhai ymgeiswyr farciau drwy gyfeirio at ddŵr yn symud i mewn ac allan o gelloedd.

**(b)** Yn yr un modd, yma, ychydig o ymgeiswyr a gyfeiriodd at hydrolysis DNA mewn mwcws. At hynny, nid oedd llawer o ymgeiswyr yn ddigon penodol i ennill marc am ddefnyddio nebiwlydd, gan gyfeirio at y cyrch-organ yn unig yn hytrach na'r ysgyfaint.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn eithaf anodd i lawer o ymgeiswyr. Dim ond lleiafrif o'r ymgeiswyr a lwyddodd i ddisgrifio'r tueddiadau mewn graff yn ddiamwys. Nid yw ‘disgrifiwch’ yn gofyn am unrhyw ‘esboniad’. Ni lwyddodd llawer o ymgeiswyr i nodi'n glir a oeddent yn disgrifio'r cleifion â Ffibrosis Cystig neu'r cleifion nad oedd ganddynt y cyflwr ac, felly, nid oeddent yn gallu ennill marciau.

**Cwestiynau 6-11 Astudiaeth Achos 2: Colli Clyw**

Cymedr: 12.0/25; FfH: 48.0; Cyfradd ymgeisio: 99.9%.

**Cw.6** Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, roedd angen i ymgeiswyr feddu ar wybodaeth am niwronau a'r system nerfol ac, fel mewn adroddiadau blaenorol, roedd hyn yn anodd i'r mwyafrif o'r ymgeiswyr.

**(a)** Dim ond ychydig o ymgeiswyr a allai nodi swyddogaeth celloedd derbyn a niwronau synhwyraidd gan ddefnyddio terminoleg wyddonol briodol.

**(b)** Dim ond lleiafrif o'r ymgeiswyr a gwblhaodd swyddogaeth y rhannau o'r niwron a chyfeiriad teithio'r impwls nerfol yn llwyddiannus. Ychydig o ymgeiswyr a lwyddodd i enwi'r synaps yn rhan (iii).

**Cw.7** Cwblhawyd egwyddor otoscopi a dau arsylw annormal yn dda gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr, er y gallai terminoleg wyddonol gywir fod wedi cael ei defnyddio. Roedd llai'n gwybod beth oedd egwyddor tympanometreg a chafwyd llawer o atebion amwys ynghylch yr hyn sy'n cael ei fesur. Dim ond ychydig o ymgeiswyr a lwyddodd i ennill marc drwy gyfeiriad at symudiad tympan y glust mewn ymateb i newidiadau mewn gwasgedd.

**Cw.8** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am ddealltwriaeth o awdiometreg tôn bur.

**(a)** Roedd yn siomedig nad enillodd mwy o ymgeiswyr farciau llawn yma am blotio graff. Collodd ychydig o ymgeiswyr yr holl farciau a oedd ar gael am beidio â chwblhau'r graff ac ni allai rhai uno'r pwyntiau â llinell addas. Rhaid i'r llinell fod yn un ddi-dor a mynd drwy ganol y pwyntiau wedi'u plotio.

**(b)** Fel yng nghwestiwn 5, roedd llawer o ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd disgrifio siâp y graff yn enwedig gan fod angen cyfeirio at Ffigur 4 er mwyn cysylltu'r lefel trothwy â lefel y colli clyw.

© WJEC CBAC Cyf

**Cw.9** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu enwi corticosteroidau fel cyffuriau gwrthlidiol a nodi mai'r dull mwyaf addas o'u rhoi i gleifion oedd drwy'r geg.

**Cw.10** Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill un o'r ddau farc a oedd ar gael yma am nodi'n gywir fod profi synau uchel yn cyfrannu at golli clyw. Dim ond yr ymgeiswyr gwell a allai awgrymu ail reswm.

**Cw.11** Fel yng nghwestiwn 10, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill un o'r ddau farc a oedd ar gael am awgrymu rheswm pan mae amddiffyn y clustiau yn well na meddyginiaeth weithiau, gan gyfeirio at y ffaith bod atal colli clyw yn well na defnyddio meddyginiaeth. Cyfeiriodd ychydig o ymgeiswyr yn gywir at gost neu sgil effeithiau meddyginiaeth.

**Cwestiynau 12-14 Astudiaeth Achos 3: Clwy'r pennau**

Cymedr: 9.4/25; FfH: 37.7; Cyfradd ymgeisio 99.9%.

**Cw.12** Ychydig iawn o ymgeiswyr a allai roi disgrifiad cynhwysfawr o'r ymateb imiwn penodol. Roedd llawer o ymgeiswyr ond wedi ennill marciau am ddefnyddio'r wybodaeth yn y graff i nodi bod mwy o wrthgyrff yn cael eu cynhyrchu mewn llai o amser ar ddiwedd yr ymateb imiwn eilaidd. Roedd yn siomedig bod cynifer o ymgeiswyr yn gallu ysgrifennu cymaint o wybodaeth na ellid dyfarnu marciau amdani.

**Cw.13** Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu nodi tair ffordd y byddai parasetamol yn gwella symptomau, er bod rhai ymgeiswyr wedi rhoi ymatebion amwys megis 'helpu gyda phoen' yn hytrach na 'lleihau neu leddfu poen'. Roedd rhan (b) yn fwy anodd ac ni allai llawer o ymgeiswyr ddewis y tair eitem o ddata yr oedd eu hangen ar gyfer y cyfrifiad. Roedd rhan (c) (i) yn gofyn am wybodaeth am syndrom Reye, ond dim ond ychydig o ymgeiswyr a allai enwi'r ymennydd a'r afu/iau yn gywir fel y ddau organ y mae'r syndrom yn effeithio arnynt fwyaf. Roedd ymgeiswyr gwell yn gallu ateb (c) (ii) yn gywir gan enwi briwiau fel un o sgil-effeithiau aspirin yn y stumog.

**Cw.14** Ar gyfer rhan (a) cafwyd adroddiadau da am y cysylltiad rhwng brechlyn MMR a lefelau uwch o awtistiaeth. Fodd bynnag, nid oedd y cwestiwn wedi gofyn am hyn. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ennill o leiaf un o'r tri marc a oedd ar gael am nodi bod y cynnydd yn nifer yr achosion o glwy'r pennau wedi'i achosi gan leihad yn nifer y bobl a oedd wedi'u brechu. Roedd ymgeiswyr gwell yn gallu datblygu eu syniadau ymhellach er mwyn cynnwys diffyg imiwnedd torfol a chynnydd yn nifer yr achosion a nodwyd. Roedd gwybodaeth yr ymgeiswyr am bandemig COVID-19 wedi dylanwadu'n fawr ar yr atebion i ran (b) ac, er bod rhai atebion yn berthnasol i glwy'r pennau, cafwyd llawer o atebion nad oeddent yn berthnasol iddo.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Mae'n arbennig o bwysig defnyddio'r deunydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw cyn sefyll yr arholiad hwn.

Mae'r canolfannau a'r ymgeiswyr sy'n gwneud orau wedi darllen yr erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw ac wedi ymchwilio i wybodaeth am bob astudiaeth achos yn arbennig:

- pa mor gyffredin yw clefyd a symptomau'r clefyd hwnnw
- yr achosion a enwir a'r prosesau a ddefnyddir wrth wneud diagnosis
- triniaethau a enwir
- dull gweithredu unrhyw gyffuriau a enwir

© WJEC CBAC Cyf

Mae i'r cwestiynau a ofynnir yn y papur elfen synoptig. Felly, mae'n hanfodol bod gan ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth o'r holl unedau a astudiwyd yn ystod y cwrs.

Mae angen i ymgeiswyr ddeall y geiriau gorchymyn a ddefnyddir yn y cwestiynau, megis disgrifiwch, esboniwch, cymharwch, rhestrwch ac awgrymwch.

© WJEC CBAC Cyf

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf